# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Meithrinfa Jac-Y-Do**

**Ffordd y Faenor**
**Ammanford**
**SA18 3AP**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

18/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Meithrinfa Jac-Y-Do

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Jac-Y-Do |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 70 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mai 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n rhag-weld, adnabod ac yn cwrdd ag anghenion iaith a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio, neu a fydd o bosibl, yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus dros ben ac yn teimlo’n hyderus iawn o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn ymgartrefu’n gyflym iawn ac yn teimlo’n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd.

Mae perthynas agos iawn rhwng y staff gofal a’r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn parchu eu dymuniadau a’u hoff a chas bethau. Mae’r staff gofal yn rhoi clod i blant trwy ddathlu eu hymdrechion yn frwdfrydig a diffuant.

Mae’r feithrinfa wedi’i lleoli mewn adeilad pwrpasol sy’n ddiogel ac yn addas iawn at y diben. Mae’r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod adnoddau da ar gael a bod asesiadau risg yn eu lle. Er hynny, mae yna le i ehangu ychydig ar yr asesiadau risg. Maent wedi buddsoddi yn yr ardal allanol ac mae bellach yn cynnwys parc pwrpasol.

Mae’r gan y bobl sy’n rhedeg y feithrinfa weledigaeth gadarn ac maent yn rheoli’r feithrinfa’n effeithiol iawn. Maent yn hynod drefnus ac yn cwblhau eu gwaith i safon ragorol. Maent yn cydweithio ac yn cyfathrebu’n eithriadol o agos gyda’r rhieni a gwarchodwyr i ddiwallu anghenion y plant yn hynod lwyddiannus gan ymateb yn gadarnhaol i’w hanghenion meddygol, emosiynol, cymdeithasol a datblygiadol. Maent yn rhagweithiol iawn ac yn gweithredu’n brydlon gan osod lles y plant yn ganolog i’w holl penderfyniadau.

## Llesiant

Mae bron pob plentyn yn hapus dros ben ac yn teimlo’n hyderus iawn o fewn eu hamgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn ymgartrefu’n gyflym ac yn teimlo’n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae plant sydd newydd ddechrau yn gwenu’n braf wrth fwyta bwyd yn hollol ddidrafferth. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, gan feithrin cydberthnasau agos, ac maent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân o’u rhieni ac mae cyfnodau pontio cyson yn effeithiol, ac yn fodd o gydnabod a chefnogi anghenion unigol y plant. Maent wedi meithrin perthynas dda iawn â'r staff gofal ac maen nhw wedi ffurfio bondiau cryf. Er enghraifft, mae plant yn cofleidio staff gofal ac yn gwenu’n braf wrth siarad gyda nhw.

Maent yn ddysgwyr chwilfrydig a llawn cyffro. Mae bron pob plentyn yn cyfrannu’n dda iawn at eu gweithgareddau ac yn frwdfrydig iawn. Er enghraifft, wrth droi dail mewn padell gan ddychmygu eu bod yn creu cawl, roedd plant yn ymateb yn ddychmygus iawn gan ddweud bod angen chwythu’r cawl cyn bwyta am ei fod yn rhy dwym. Wrth wneud, maen nhw'n canu ‘troi a throi, troi a throi’ wrth droi’r cawl dychmygol. Mae'r plant yn egnïol, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu chwarae yn fawr iawn. Er enghraifft, mae’r plant hŷn yn mwynhau eu chwarae yn y parlwr harddwch wrth iddynt gribo gwallt y doliau, rhoi clipiau yn y gwallt a sychu’r gwallt gan ddefnyddio’r peiriant sychu gwallt.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Maent ganddynt lais cryf yn y cynllunio hefyd ac mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, cyn newid y fwydlen bythefnosol, mae’r plant yn cael mynegi barn ar fwydlen ddrafft dros gyfnod o bythefnos cyn iddi gael ei chyflwyno. Caiff y fwydlen honno ei haddasu at ddant y plant sy’n mynychu os oes angen. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau am fod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir gan y plant a'r rhai a arweinir gan oedolion.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol yn dda. Mae plant hŷn uned y babanod yn dewis llyfrau’n annibynnol ac yn mynd at y staff gofal i ofyn am gael gwrando ar stori ac yn pwyntio at luniau ac yn enwi eitemau sydd yn y llyfrau. Maent yn gwrtais ac yn dweud ‘plîs’ a ‘diolch’ wrth i staff eu hatgoffa. Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau corfforol da, er enghraifft, wrth reidio beics o amgylch y parc a dringo’r ffrâm. Mae bron pob plentyn yn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo gyda sebon a’u sychu yn annibynnol. Maent yn bwyta bwyd yn annibynnol ac yn fedrus yn ifanc iawn. Mae’r plant hŷn yn cael cyfle i benderfynu ar ba weithgareddau maen nhw eisiau gwneud trwy ddewis cardiau gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad

Mae staff gofal yn rhyngweithio yn dda gyda'r plant ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff gofal yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn dewis peidio ymgymryd â thasgau penodol trwy adael iddynt ddewis eu tasgau eu hunain. Maent hefyd yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y ffurflenni cofrestru a'r wybodaeth ychwanegol mae rhieni'n ei roi ar lafar, er mwyn creu proffiliau un tudalen.

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn, ac yn defnyddio'u gwybodaeth o hyfforddiant perthnasol yn llwyddiannus i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae pob aelod staff wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf a chwrs diogelu o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae dealltwriaeth y staff o ymdrin â damweiniau yn dda ac maent yn cofnodi'n drylwyr ac yn rhoi gwybod i rieni. Mae trefniadau da yn eu lle ar gyfer diogelu plant ac mae gan bron bob un o'r staff gofal ddealltwriaeth gadarn iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r staff gofal yn gweithredu arferion glanhau a hylendid cadarn. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn cwblhau'r asesiadau risg yn rheolaidd iawn yn ystod y dydd er mwyn cadw plant yn ddiogel. Fel rhan o hynny, maent yn rhybuddio plant am beryglon. Er enghraifft, cyn gadael i blant chwarae ar yr offer yn yr ardal allanol ar ôl iddi lawio, mae staff gofal yn atgoffa'r plant i fod yn ofalus. Maent hefyd yn trafod yr angen i sychu'r cyfarpar gyda lliain cyn eu defnyddio. Mae staff gofal a'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cynnal driliau tân yn rheolaidd ond nid yw'r broses bob tro yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ymarfer dril tân yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad. Mae'r staff at ei gilydd yn rheoli ymddygiad yn dda er nad yw pob aelod o'r staff gofal yn defnyddio strategaethau cadarnhaol wrth reddf. Mae bron bob un o'r staff gofal yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac maent yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol iawn gyda rhieni am gynnydd ac anghenion y plant. Mae systemau effeithiol iawn yn eu lle ar gyfer cynllunio ac maent yn cynllunio'n drylwyr iawn ar gyfer anghenion y plant ac yn creu cynlluniau unigol pan fo angen. Mae bron bob un o'r staff gofal yn olrhain cynnydd y plant ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn chwarae a dysgu'r plant. Dywed rhieni yn ddieithriad eu bod nhw'n cael gwybodaeth yn effeithiol iawn gan y feithrinfa am gynnydd eu plant.

Mae'r staff gofal yn canmol y gefnogaeth y maent yn ei gael gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa ac yn hapus iawn yn eu gwaith.

## Yr Amgylchedd

Mae’r feithrinfa yn groesawgar ac mae’r adeilad yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda iawn. Mae’r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod rota glanhau yn ei le a bod pawb yn glanhau’n drwyadl gan ddilyn y rota. Maent hefyd yn sicrhau bod y lifft, y boeler a’r offer trydanol yn cael eu gwirio yn rheolaidd gan bobl broffesiynol. Mae asesiad risg coronafeirws yn ei le i sicrhau bod pawb yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae’r staff yn dilyn y gweithdrefnau’n dda ac yn deall beth yw’r gofynion. Wrth arsylwi ar waith y staff gofal ac wrth siarad gyda nhw, mae’n amlwg bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o reoli heintiau er mwyn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r feithrinfa yn dda. Er enghraifft, mae’r fflanels yn cael eu defnyddio ar gyfer un plentyn ac yn cael eu golchi ar dymheredd o 60 gradd ar ôl eu defnyddio unwaith. Maent yn defnyddio dillad gwely gwahanol ar gyfer pob plentyn.

Mae’r feithrinfa’n ddiogel iawn. Mae camerâu cyfyng o amgylch yr adeilad a chaiff *walkie talkies* eu defnyddio i sicrhau bod y bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn cyfathrebu negeseuon yn gyflym gyda’r staff gofal yn yr ystafelloedd, yn enwedig pan fo rheini yn dod i gasglu plant. Mae hyn yn gwella’r profiad i rieni wrth iddynt gasglu eu plant. Mae cod allwedd ar y drysau ac mae yna giatiau ar y grisiau ac yn yr ystafelloedd lan llofft. Mae'r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau perygl tân, maent yn eu hadolygu ac yn gweithredu arnynt. Er hynny, mae yna le i wella arnynt ymhellach o safbwynt gweithgareddau.

Mae'r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth o ardaloedd sy’n rhoi cyfleoedd chwarae addas i’r holl ystod oedran. Er enghraifft, mae’n cynnwys ardaloedd darllen, ardaloedd chwarae rôl a chorneli penodol ar gyfer amser cylch.

Mae'r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei ddefnyddio mor aml â phosibl. Maent wedi datblygu’r ardal allanol ac wedi buddsoddi mewn adnoddau safonol, er enghraifft, parc newydd sbon gan gynnwys ffrâm ddringo, teclyn cylchu a thrac ar gyfer ceir. Mae’r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau echyddol bras. Mae'r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod yr amgylchedd allanol yn cynnwys ardal chwarae dan do hefyd ac mae ardal allanol penodol ar gyfer y babanod. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu rhan fwyaf o anghenion y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth hynod gadarn ar gyfer y gwasanaeth ac maent yn ei rhannu yn glir iawn ac yn effeithiol ag eraill. Mae natur gadarn yr arweinyddiaeth yn dylanwadu'n bositif iawn ar waith y feithrinfa. Maent yn drefnus a thrwyadl iawn. Er enghraifft, mae ganddynt system ffeilio effeithiol ac maent yn defnyddio technoleg yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd angen arnynt ar flaen eu bysedd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyson.

Mae datganiad o ddiben a phecyn croeso trylwyr yn eu lle sy'n cydymffurfio gyda'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn amlinellu'r gwasanaeth a gynigir yn hynod effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn arwain trwy esiampl ac maen nhw'n weledol iawn yn y feithrinfa. Wrth siarad gyda rhieni, gwnaethant gadarnhau bod y wybodaeth y maent yn ei derbyn yn gyson ac yn gynhwysfawr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau yn rheolaidd ac maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ac yn eu gweithredu. Yn ystod yr arolwg, gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa ychydig o newidiadau i'r polisi ymddygiad, polisi diogelu a'r polisi iechyd a diogelwch.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gosod disgwyliadau uchel, maent yn ysbrydoli ac yn arwain y staff gofal yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod yr holl wiriadau yn eu lle cyn i staff ddechrau ac yn cynnal arsylwadau o'r staff yn eu hystafelloedd wrth eu gwaith ac yn cynnig adborth ac yn gosod targedau. Maent hefyd yn cwrdd gyda chriwiau bach o'r staff gofal yn eu tro i drafod blaenoriaethau'r feithrinfa. Er hynny, nid yw'r broses o oruchwylio staff gofal yn gwbl gadarn ar hyn o bryd. Trwy weithio'n agos iawn gyda'r staff gofal, maent yn llwyddo i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu hadnabod yn gynnar iawn. Os oes angen, maent yn gwneud y trefniadau priodol i gysylltu â rhan ddeiliaid yn amserol tu hwnt gan roi anghenion y plentyn yn gyntaf bob tro.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymateb i anghenion hyfforddi staff yn arbennig o effeithiol. Mae cyfleoedd i staff gofal fynychu hyfforddiant buddiol, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa hefyd yn cwblhau hyfforddiant eu hunain fel eu bod yn llwyr ymwybodol o'r datblygiadau cyfredol yn y sector. Yn ystod y pandemig, mae pob aelod o'r staff gofal, ynghyd â'r unigolyn cyfrifol a'r personau â gofal, wedi cael cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant ar-lein. Maent hefyd wedi dechrau cwblhau hyfforddiant ar-lein ar y ddeddf anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn monitro'r gwasanaeth yn effeithiol gydol y flwyddyn ac yn hynod ragweithiol wrth edrych am feysydd i'w datblygu. Maent yn cynnal adolygiad o ansawdd y gofal yn flynyddol ac yn ysgrifennu adroddiad manwl ac adlewyrchol ar ansawdd y gofal. Mae rhieni a staff yn cael mynegi barn ar y gwasanaeth ac mae'r farn honno'n bwydo'r adolygiad a chaiff yr adroddiad ei rannu gyda rhieni a staff. Maent hefyd yn craffu

ar adborth rhieni yn ofalus iawn ac yn gweithredu ar hynny os oes angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth eithriadol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn llawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn hollol gynhwysol. Maent yn rhoi gwybodaeth hynod dda i rieni ac felly mae’r partneriaethau gyda rhieni yn hynod gadarn. Wrth siarad gyda rhieni, cawsom dystiolaeth bellach o’r holl waith arbennig sy’n digwydd o ran cyfathrebu’n glir gyda nhw. Mae’r rhieni y buom yn siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth i’r eithaf. Mae’r bobl sy’n rhedeg y feithrinfa hefyd yn cyfathrebu’n effeithiol iawn gyda phartneriaethau megis yr ymwelydd iechyd, gan roi lles y plant yn gyntaf bob tro.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

A1. Ehangu ymhellach ar yr asesiadau risg;

A2. Datblygu ymhellach y broses o oruchwylio staff;

A3. Mynd ati i wreiddio’r strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn llawn.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/12/2021